

## MORGAN, ROBERT (1608 - 1673), esgob Bangor

**Enw:** Robert Morgan  
**Dyddiad geni:** 1608  
**Dyddiad marw:** 1673  
**Priod:** Anne Morgan (née Lloyd)  
**Plentyn:** Richard Morgan  
**Plentyn:** Owen Morgan  
**Plentyn:** William Morgan  
**Plentyn:** Robert Morgan  
**Plentyn:** Margaret Wynn (née Morgan)  
**Plentyn:** Anna Lloyd (née Morgan)  
**Plentyn:** Elizabeth Humphreys (née Morgan)  
**Plentyn:** Katherine Morgan  
**Rhiant:** Mary Morgan (née Lloyd)  
**Rhiant:** Richard Morgan  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** esgob Bangor  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Arthur Herbert Dodd

Ganwyd yn 1608 yn Bronfraith, Llandysul, Sir Drefaldwyn, trydydd mab Richard Morgan, a addysgwyd yn Rhydychen ac a fu'n cynrychioli sir Drefaldwyn yn Senedd 1593. Mary, merch Thomas Lloyd, Gwernbuarth, oedd ei fam. Ar ôl bod yn astudio gartref o dan dad Simon Lloyd, archddiacon Meirionnydd wedi hynny, aeth i Goleg Iesu, Caergrawnt (6 Gorffennaf 1624), a graddio yn B.A. 1628, B.D. 1638, D.D. 1661. Wedi ei ordeinio ym mis Rhagfyr 1629 gan esgob Peterborough, aeth yn gaplan (1631) i **Dolben**, esgob Bangor, a roes iddo fywoliaeth yn Sir Drefaldwyn a dwy reithoraeth segur yn sir Ddinbych. Pan fu **Dolben** farw yn 1632 dychwelodd i Gaergrawnt (S. John's) hyd 1637, pryd y daeth yn gaplan i **William Roberts** (1585 - 1665), esgob Bangor, a chafodd fywoliaeth ychwanegol yn sir Ddinbych; pan wnaethpwyd ef yn brebend yn eglwys gadeiriol Caer (1 Gorffennaf 1642), newidiodd y fywoliaeth ychwanegol hon am rai bywiolaethau yn sir Fôn. Trwy brynu gan deulu **Bulkeley** les degymau Llanddyfnan, sir Fôn, a oedd heb redeg i'r pen - (rhoes y degymau hyn yn ddiweddarach i ychwanegu at werth y fywoliaeth) - gallodd gadw Llanddyfnan pan drowyd ef allan o'i fywiolaethau eraill yn ystod yr 'Interregnum,' a bu'n byw gyda **Llwydiad** Henblas, Llangristiolus - yr oedd ei syniadau gwleidyddol ef a'r eiddo **Richard Lloyd** yn gyffelyb i'w gilydd. Bu'n helpu i fraslunio datganiad teyrngarol sir Fôn (14 Gorffennaf 1648) ac mewn pregeth angladdol ar ôl **Owen Holland**, Berw (2 Rhagfyr 1656), cystwydd y 'new and phantastick revelations' a geid gan y pregethwyr Piwritanaidd (**NLW MS 3069B**). Wedi'r Adferiad cafodd fywoliaeth Trefdraeth yn ei hôl, daeth yn archddiacon Meirionnydd (24 Awst 1660), cafodd 'gyfran' o Landinam, Sir Drefaldwyn, cymerodd feddiant o ganoniaeth Penmynydd yr oedd wedi ei enwi iddi yn gynharach, a chwplodd ei radd D.D. yng Nghaergrawnt (1661). Yn 1666 fe'i cysegrwyd yn esgob Bangor yn lle Robert Price, a fuasai farw cyn cael ei sefydlu. Bu'n helpu i wella cyflwr adeilad yr eglwys gadeiriol a esgeulusasid yn ystod yr 'Interregnum' a rhoes organ iddi; pregethai hefyd yn ddyfal yn Gymraeg ac yn Saesneg. Pan gymerodd feddiant o reithoraeth Llandymog am ei fod yn ei chyfrif yn perthyn i'r esgob wrth ei swydd, bu ymgyfreithio chwerw rhyngddo ef a **Thomas Jones** (1622? - 1682), a oedd wedi ymneilltuo i'r fywoliaeth pan gollodd ei swydd fel caplan i Iago (y brenin Iago II wedi hynny) ac a oedd yn awr mewn tlodi. Ar wahân i hyn gadawai Morgan bob dadleuon yn llonydd, gan anwybyddu'r confenticlau yn ei esgobaeth, apelion y **Dr. Michael Roberts** am gymorth i gael ei gymrodoriaeth yng Ngholeg Iesu, Rhydychen, yn ei hôl, a cheisiadau ei 'gâr' **Syr Richard Wynn**, Gwydir, am iddo roddi bywiolaethau i bobl a noddid ganddo ef ond a oedd yn gwbl anghyfaddas. Bu farw 1 Medi 1673; dyfynnir arysgrifau ei gofebau yn eglwys gadeiriol Bangor yn **Browne Willis**, *Bangor*, 1721, 23, 27-8. Priododd Anne, merch William Lloyd, rheithor Llanelian, a bu iddynt bedwar mab; bu tri o'r meibion yn Rhydychen - aeth un o'r tri i'r wasanaeth llysgenhadol o dan **Syr Leoline Jenkins** a'r lleill i weinidogaeth yr Eglwys.

### Awdur

**Yr Athro Emeritus Arthur Herbert Dodd**, (1891 - 1975)

### Ffynonellau

*Oxford Dictionary of National Biography*, a'r ffynonellau a enwir yno

Venn, *Alumni Cantabrigienses*, I, iii, 212

*Calendar of Wynn (of Gwydir) Papers, 1515â€“1690, in the National Library of Wales and elsewhere*, 2593, 2660

A. Ivor Pryce, *The Diocese of Bangor in the sixteenth century being a digest of the registers of the bishops, A.D. 1512-1646*(1923), 43, 46-7

T. Richards, *Religious Developments in Wales, 1654â€“1662* (1923), 148-9, 274, 428, *Wales under the Penal Code, 1662-1687* (1925), 61, 137, 159

*Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, vi, 183

# Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q7347797](https://www.wikidata.org/wiki/Q7347797)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

[PDF](#) [Argraffu](#) [Cyfeirnod](#)

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Dodd, A. H., (1953). MORGAN, ROBERT (1608 - 1673), esgob Bangor. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 9 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-MORG-ROB-1608>

[Cofrestru](#)

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGELL  
THE NATION



Wedi'i ddarparu gan  
Llyfrgell Genedlaethol Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government